Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	18/10/22
Swyddog / Aelod Arweiniol	Y Cyng Gill German / Geraint Davies
Awdur yr adroddiad	Lisa Walchester/ Carwyn Edwards
Teitl	Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn - adroddiad ymgynghori ffurfiol Trefniadaeth Ysgolion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Aelodau Cabinet o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â chynnig Cyngor Sir Ddinbych i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Galluogi'r cymeradwyaethau sydd eu hangen i symud ymlaen i gam nesaf prosiect Ysgol Plas Bondyffryn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Cabinet:

3.1. Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol i gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Bondyffryn;

3.2. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol i Gyngor Sir Ddinbych gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn o 1 Medi 2024 cyn belled bod yr adeilad newydd yn barod;

3.3. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les, Atodiad 1, fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae hwn yn brosiect Band B yn rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, sef rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif gynt. Amlinellwyd yr ymrwymiad i'r cynnig hwn mewn rhaglen Amlinellol Strategol, a gafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys dyraniad cyffredinol o £23.8 miliwn ar gyfer y prosiect hwn. Gan fod y prosiect hwn ar gyfer ysgol arbennig, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddibynnol ar gymeradwyo'r Achos Busnes perthnasol, yn darparu 75% o'r cyllid a bydd Sir Ddinbych yn darparu'r 25% sy'n weddill yn unol ag ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol.

4.2. Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol 3-19 oed sy'n cynnig darpariaeth arbenigol i ddisgyblion gydag awtistiaeth. Y cynnig cyfuno 3 o'r 4 safle presennol yn Ninbych mewn adeilad pwrpasol a chynyddu capasiti'r ysgol wrth i'r galw am y llefydd arbenigol hyn gynyddu.

4.3. Y safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd yw'r cae ger canolfan Hamdden Dinbych a gaiff ei ddefnyddio gan Ysgol Uwchradd Dinbych ar hyn o bryd. Yr Awdurdod Lleol sy'n berchen ar y cae.

4.4. Derbyniwyd cyfanswm o 93 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad - 89 ffurflen ymateb ar-lein a 4 e-bost - yn ogystal ag ymateb gan Estyn. O'r 93 ymateb a dderbyniwyd, roedd 71 o blaid y cynnig, 18 yn erbyn ac ni wnaeth 4 ohonynt nodi'r naill ffordd neu'r llall.

4.5. Y prif faterion yn erbyn y cynnig yw'r lleoliad a gynigir ar gyfer yr adeilad newydd gan gynnwys colli man gwyrdd, yr effaith ar Ysgol Uwchradd Dinbych yn colli un o'u caeau chwarae a phryderon mewn perthynas â thraffig. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i gynyddu capasiti'r ysgol. Mae lleoliad yr adeilad newydd yn fater cynllunio a bydd yn mynd drwy'r drefn gynllunio. O ran Ysgol Uwchradd Dinbych, mae ganddynt gae arall nad ydynt yn ei ddefnyddio ac mae gwaith arolygu'n mynd rhagddo i sefydlu pa welliannau sydd eu hangen i sicrhau bod yr ysgol yn gallu parhau i ddarparu pob elfen o'r cwricwlwm AG. Gweler Atodiad 2 am fanylion pellach.

4.6. Mae'n rhaid i aelodau ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a'r dogfennau ategol a gynhyrchwyd yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod er hwylustod:

- Mae Atodiad 2 yn cynnwys Adroddiad yr Ymgynghoriad Ffurfiol. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi;
    - Rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
    - Ymateb i'r materion hyn trwy eglurhad;
    - Amlinellu barn Estyn am fanteision cyffredinol y cynnig.

Mae adroddiad yr ymgynghoriad ffurfiol yn cynnwys yr Atodiadau canlynol:

Atodiad A - rhestr derbynwyr y Ddogfen Ymgynghori

Atodiad B - Crynodeb o sylwadau / cwestiynau a godwyd mewn cyfarfodydd

Atodiad C - Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol

Atodiad D - Ymateb y Corff Llywodraethu Llawn

Atodiad E - Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd dros e-bost

Atodiad F - Crynodeb o'r ymatebion drwy Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad Ffurfiol

Atodiad G - Ymateb Estyn

4.7. Yn dilyn adolygu'r wybodaeth hon, argymhellir bod y Cyngor yn cyhoeddi Rhybudd Statudol yn seiliedig ar y cynnig presennol. Bydd yn rhaid cyhoeddi'r Rhybudd Statudol am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn o 28 diwrnod, bydd cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig wneud hynny. Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth, bwriedir i'r cynnig hwn gael ei gyhoeddi ar 8 Tachwedd 2022 gyda'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben ar 5 Rhagfyr 2022. Er mwyn iddynt gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu dros e-bost a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig.

4.8. Yn dilyn y dyddiad hwn, bydd yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a bydd gofyn i'r Cabinet ddefnyddio'i bwerau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau

a gyflwynwyd a phennu p'un a ddylid gweithredu'r cynnig. Mae'n debyg y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ym mis Ionawr 2023.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cysylltiad rhwng y prosiect hwn a'r flaenoriaeth Pobl Ifanc yn y Cynllun Corfforaethol 2017-2022 - Parhau i foderneiddio ysgolion i wella cyfleusterau ysgolion a gwella profiadau dysgu disgyblion.

5.2. Bydd yr adeilad newydd yn cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gofyn i brosiectau adeiladau newydd, o 1 Ionawr 2022, ddangos eu bod yn bodloni targedau di-garbon net. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn ariannu hyn yn llawn yn unol â'r meincnodau maent wedi'u nodi. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r achos busnes wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i'r costau ddod yn fwy eglur.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd rhywfaint o gostau i'r Cyngor mewn perthynas â chyhoeddi'r rhybudd statudol. Y costau argraffu sydd ynghlwm â chyhoeddi'r rhybudd fydd y rhain yn bennaf.

6.2. O ran y gwaith adeiladu, rydym ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd y costau'n cynyddu y tu hwnt i'r dyraniad cychwynnol o £23.8 miliwn. Mae hyn yn unol â'r pwysau ehangach ar gostau adeiladu sydd wedi cynyddu dros 10% mewn nifer o feysydd. Bydd opsiynau gwerth peirianneg hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau cyn lleied o gynnydd â phosibl, ond mae'n annhebygol y bydd y rhain yn gwrthbwyso unrhyw bwysau chwyddiant. Bydd yn rhaid i'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023 adlewyrchu'r pwysau hwn. Mae'n debygol y bydd yn rhaid defnyddio'r cyllid wrth gefn heb ei neilltuo fel rhan o raglen amlinellol Sir Ddinbych ar gyfer Band B.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad 1 sydd ynghlwm - Adeilad newydd - Ysgol Plas Brondyffryn.

7.2. Prif gasgliadau'r adroddiad yw:

7.2.1. Sgoriodd y cynnig 3 allan o 4 seren a 28/36,

7.2.2. Mae'r cynnig yn ystyried dyfodol hirdymor yr ysgol wrth i'r galw am y mathau hyn o lefydd ysgol gynyddu. Bydd yr adeilad newydd yn caniatáu i'r ysgol ddefnyddio'r gofod yn hyblyg a darparu un safle i bob aelod o staff a disgyblion.

7.2.3. Bydd yr adeilad ei hun yn helpu'r economi lleol ac yn rhoi pwyslais cryf ar fuddion cymunedol.

7.2.4. Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru. Ymgynghorwyd â'r ysgol a swyddogion eraill o fewn addysg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r prosiect ar raglen Grŵp Ardal Aelodau Dinbych fel eitem sefydlog ac felly darperir diweddariadau ym mhob cyfarfod.

8.2. Mae staff yr ysgol a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r prosiect ac wedi ymgysylltu â'r cyfarfodydd cynllunio gydag Wates.

8.3. Mae'r adran priffyrdd, cynllunio, hamdden a TGCh mewnol yn ymwybodol o'r prosiect ac mae adborth wedi'i dderbyn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Er fy mod yn gefnogol o'r cynnig hwn mewn egwyddor, yn arbennig o ran y cam hwn yn y broses, mae'n bwysig bod goblygiadau ariannol llawn y cynigion yn cael eu harchwilio a'u deall mewn rhagor o fanylder. Dylid hefyd ystyried yr effaith posibl ar y rhaglen Band B ehangach ac ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn arbennig. Bydd yr Adran Gyllid yn darparu cymorth i'r Bwrdd Moderneiddio Addysg er mwyn gwneud hyn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'n rhaid i'r broses ymgynghori ffurfiol gael ei chwblhau ochr yn ochr â phrosesau cymeradwyo cynlluniau a chyllid yr adeilad newydd.

10.2. Y risg lliniaru yw y bydd y broses o benodi'r prif gontractwr yn ffurfiol ar gyfer y gwaith adeiladu'n digwydd ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori ffurfiol. Felly pe bai gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig yn gynnar yn y broses, fe allai'r Cyngor oedi penodiad y prif gontractwr fel sy'n briodol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion a datblygu cynigion i aildrefnu darpariaeth ysgolion.